*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2364 (Cy.203)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Medi 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *8 Medi 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Hydref 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 124 a 203 (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2008 sy'n dod i rym ar 1 Hydref 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr “y prif Reoliadau” (“*the principal Regulations*”) yw Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989(**2**).

### Diwygio rheoliad 4 o'r Prif Reoliadau

**2.** Yn rheoliad 4 o'r prif Reoliadau (ymwelwyr tramor sy'n esempt rhag ffioedd)—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl is-baragraff (p) mewnosoder—

“, or

(q) who the competent authorities of the United Kingdom for the purposes of the Council of Europe Convention on Action Against Trafficking in Human Beings(**3**) (in this regulation “the Convention”),

(i) consider that there are reasonable grounds to believe is a victim within the meaning of Article 4 of the Convention, and the recovery and reflection period in relation to him under Article 13 of the Convention has not yet expired; or

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) 1989/306 (fel y'i diwygiwyd).
(**3**) Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl 2005 (CETS Rhif 197).

(ii) have identified as a victim within the meaning of Article 4 of the Convention.".

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

4 Medi 2008

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 ("y prif Reoliadau"). Mae'r prif Reoliadau yn darparu ar gyfer codi ac adennill ffioedd mewn cysylltiad â gwasanaethau penodol a ddarperir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i bersonau penodol nad ydynt fel arfer yn preswylio yn y Deyrnas Unedig (ymwelwyr tramor).

Mae Rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 4(1) o'r prif Reoliadau i fodloni rhwymedigaethau'r Deyrnas Unedig o ran triniaeth feddygol o dan Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl.

Effaith hyn yw estyn yr esemptiad rhag ffioedd i ymwelwyr tramor a nodir yn rheoliad 4 o'r prif Reoliadau i ddau ddosbarth o bobl. Yn gyntaf, i ymwelwyr tramor y mae gan y Deyrnas Unedig sail resymol i gredu eu bod yn ddioddefwyr o fewn ystyr Erthygl 4 o'r Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl (mae'r esemptiad yn gyfyngedig i'r cyfnod gwella ac ystyried a gydnabyddir yn Erthygl 13 o'r Confensiwn). Ac yn ail, y rhai a adnabuwyd fel dioddefwyr.